www.xtrapapers.com

OCR
Oxford Cambridge and RSA

# Dydd Mercher 17 Mai 2017 – Bore

## LEFEL 1/2 CYMHWYSTER CENEDLAETHOL CAERGRAWNT MEWN TGCh

**R001/02** Deall Systemau Cyfrifiadurol

**ATODIAD ASTUDIAETH ACHOS**

*6893885004*

**Amser:** 1 awr

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

- Mae hwn yn gopi glân o'r Astudiaeth Achos y dylech fod wedi ei gweld eisoes.
- Dylech gyfeirio ati wrth ateb cwestiynau'r arholiad sydd wedi eu hargraffu mewn llyfryn ar wahân.
- **Ni** chewch fynd â'ch copi blaenorol o'r Astudiaeth Achos i'r arholiad.
- **Ni** chewch fynd â nodiadau i'r arholiad.
- Mae'r ddogfen hon yn cynnwys **4** tudalen. Caiff unrhyw dudalennau gwag eu nodi.

**CYFARWYDDYD I'R SWYDDOG ARHOLIADAU/GORUCHWYLIWR**

- Peidiwch ag anfon yr Astudiaeth Achos hon i'w marcio; dylid ei chadw yn y ganolfan neu'i hailgylchu. Cysylltwch â Hawlfraint OCR os byddwch yn dymuno ailddefnyddio'r ddogfen hon.

© OCR 2017 [K/503/6025]
DC (CE) 148701
Mae OCR yn Elusen eithriedig

**Trowch y dudalen**

www.xtrapapers.com



## Gwybodaeth i Ddysgwyr

Mae ystafelloedd arddangos ceir sydd ar werth (*car sales showrooms*) yn gwerthu ceir newydd a cheir ail-law (Senario 1).

Mae gwasanaethau adfer cerbydau sydd wedi torri i lawr (*breakdown recovery*) yn defnyddio cerbydau wedi eu cynllunio'n arbennig sy'n gallu cludo ceir sydd wedi torri i lawr a cherbydau eraill o'r safle torri i lawr i garej atgyweirio neu leoliad arall (Senario 2).

### Senario 1

Mae *Indiana Motors* yn fusnes sefydledig sydd ag ystafell arddangos ceir sydd ar werth. Mae'n gwerthu rhwng 150 a 300 o geir newydd a cheir ail-law bob blwyddyn.

Mae *Indiana Motors* yn cadw cofnodion manwl o bob car mae'n ei gadw mewn stoc ac yn ei werthu. Mae hefyd yn cadw cofnodion o'r manylion am bob un o'i gwsmeriaid pan fyddan nhw'n prynu car.

Pan fydd cwsmer yn gofyn am gael gyrru ar brawf gar y mae ganddo ddiddordeb i'w brynu, caiff manylion y bwciad eu cofnodi ar galendr ar-lein. Mae'r calendr hwn yn cael ei rannu â'r tîm gwerthu sydd wedyn yn gyfrifol am sicrhau bod gwerthwr ar gael i fynd gyda'r cwsmer ar y daith brawf yn y car.

Fel rhan o'i farchnata, mae gan *Indiana Motors* gyflwyniad amlgyfrwng sy'n cael ei chwarae dro ar ôl tro yn yr ystafell arddangos. Cafodd y cyflwyniad amlgyfrwng ei greu gan y Tîm Gwerthu yn *Indiana Motors* ac mae'n dangos llawer o'r ceir sydd ar werth yn yr ystafell arddangos ar hyn o bryd.

### Senario 2

Mae *Safe Breakdown* yn wasanaeth adfer cerbydau sydd wedi torri i lawr ac atgyweirio cerbydau, ac mae'n cael ei argymell (*recommended*) gan *Indiana Motors*. Mae *Safe Breakdown* yn defnyddio technoleg ym mhob rhan o'r busnes ac, yn ddiweddar, mae wedi cyflwyno technoleg yn y prosesau olrhain (*tracking*) cerbydau ac olrhain rhannau yn ei warws.

Mae *Safe Breakdown* yn ymfalchïo yn y ffaith ei fod yn gofalu am ei staff yn dda ac mae'n gweithredu adeilad pencadlys ag adnoddau da sy'n cynnwys ffreutur a siop i'r staff. Mae cerdyn talu yn cael ei roi i bob aelod o'r staff a gallan nhw ei ddefnyddio i dalu am y nwyddau maen nhw'n eu prynu. Mae cyfanswm cost yr holl nwyddau mae'r gweithwyr yn eu prynu yn cael ei dynnu o'u cyflog ar ddiwedd pob mis.

Mae *Safe Breakdown* yn trin llawer o ddata personol am gleientiaid bob dydd ac mae'n rhaid iddo fod yn ymwybodol o gyfyngiadau cyfreithiol ar y modd y mae'n trin y data hyn.

Mae Dulcie yn gweithio i *Safe Breakdown* fel gyrrwr adfer cerbydau (*vehicle recovery driver*). I'w chynorthwyo yn ei gwaith, mae Dulcie wedi cael ffôn clyfar, sy'n cael ei ddefnyddio i anfon gwybodaeth am leoliadau cerbydau sydd wedi torri i lawr os bydd hi allan o'r adeilad. Mae Polisi Defnydd Derbyniol *Safe Breakdown* yn nodi bod yn rhaid i Dulcie gadw ei ffôn clyfar wedi ei droi ymlaen ac wedi ei wefru'n llawn bob amser a'i bod yn gwneud yn siŵr ei bod yn cadw at y rheol hon. Mae gan Dulcie set clustffonau llawrydd (*hands-free headphone set*) hefyd i'w defnyddio gyda'r ffôn clyfar.

www.xtrapapers.com



**Paratoi**

I baratoi ar gyfer yr arholiad, dylech chi ymchwilio i waith pob dydd ystafell arddangos ceir sydd ar werth a hefyd gwasanaeth adfer cerbydau sydd wedi torri i lawr ac atgyweirio cerbydau.

Dylai hyn gynnwys:

- y defnydd o'r galedwedd a meddalwedd y mae eu hangen i gefnogi swyddogaeth fusnes y sefydliadau;
- dyluniad ffurflenni a sut mae'n nhw'n cael eu defnyddio i gipio data cwsmeriaid;
- manteision defnyddio calendrau ar-lein sy'n cael eu rhannu;
- sut gall cyflwyniadau amlgyfrwng gael eu defnyddio fel rhan o'r broses farchnata;
- y defnydd o dechnoleg i olrhain cerbydau a stoc;
- y defnydd o dechnoleg i gofnodi nwyddau sy'n cael eu prynu gan y staff o'r ffreutur ac o'r siop i'r staff.

Dylech chi hefyd ymchwilio i'r canlynol:

- sut gallai data gael eu diogelu rhag cael eu colli'n ddamweiniol, a'r rhesymau dros wneud hynny;
- y cyfyngiadau moesol a chyfreithiol ar sut mae sefydliadau'n casglu, yn storio ac yn prosesu data personol, a sut mae'n bosibl cydymffurfio â'r rhain.

© OCR 2017 

www.xtrapapers.com



Oxford Cambridge and RSA

**Gwybodaeth am Hawlfraint**

Mae OCR wedi ymrwymo i ofyn caniatâd i atgynhyrchu'r holl gynnwys trydydd parti y mae'n ei ddefnyddio yn ei ddeunyddiau asesu. Mae OCR wedi ceisio nodi a chysylltu â phob deiliad hawlfraint y defnyddir eu gwaith yn y papur hwn. I osgoi datgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag atebion i ymgeiswyr, atgynhyrchir pob cydnabyddiaeth hawlfraint yn Llyfryn Cydnabyddiaeth Hawlfraint OCR. Cynhyrchir hwn ar gyfer pob cyfres o arholiadau, ac mae ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan gyhoeddus (www.ocr.org.uk) ar ôl y gyfres arholiadau byw.

Os yw OCR yn anfwriadol wedi methu cydnabod neu glirio unrhyw gynnwys trydydd parti yn y deunydd asesu hwn, bydd OCR yn falch o gywiro hyn ar y cyfle cyntaf posibl.

Ar gyfer ymholiadau neu wybodaeth bellach, cysylltwch â: Copyright Team, First Floor, 9 Hills Road, Cambridge CB2 1GE.

Mae OCR yn rhan o'r Cambridge Assessment Group; Cambridge Assessment yw enw brand University of Cambridge Local Examinations Syndicate (UCLES), sydd yn adran o Brifysgol Caergrawnt.

© OCR 2017